



ENTRE**COMP**EDU

Modiwl 5:

Dysgu a Datblygu Proffesiynol



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

Cynnwys

Modiwl 5

Crynodeb Modiwl.....	3
5.1 Gwerthuso effaith.....	6
5.2 Ymarfer sydd wedi'i lywio gan ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth.....	15
5.3 Meithrin a chynnal rhwydweithiau entrepreneuriaidd.....	23
LLONGYFRACHIADAU!	30



Crynodeb Modiwl

Dysgu proffesiynol a myfyrio	
Nodau	Amlygu pwysigrwydd dysgu a datblygu proffesiynol ym maes addysg entrepreneuriaidd
Disgrifiad	Mae'r modiwl hwn yn disgrifio rôl dysgu a datblygu proffesiynol o ran cefnogi cymwyseddau entrepreneuriaidd yr addysgwyr eu hunain. Mae'n amlygu pwysigrwydd hunanwerthuso, y defnydd o ymchwil a thystiolaeth arall, yn ogystal â meithrin rhwydweithiau proffesiynol. Mae'r modiwl yn cael ei lywio gan egwyddorion ymarfer bwriadol a myfyrio beirniadol, gan hefyd gynnig enghreifftiau ymarferol o'r modd y gall y rhain gefnogi dysgu proffesiynol.
Deilliannau dysgu arfaethedig	Erbyn diwedd y modiwl hwn, dylech: <ul style="list-style-type: none"> • nodi cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu proffesiynol ym maes addysg entrepreneuriaidd • gwerthuso a myfyrio'n feirniadol ar effaith y modd y bu i chi addysgu cymwyseddau entrepreneuriaidd • cymhwyso offer a strategaethau ymchwil mewn cyd-destunau addysg entrepreneuriaidd
Prif ddulliau dysgu	<ul style="list-style-type: none"> • Darllen dan arweiniad • Arsylwadau ar fideos • Ymarferion creadigol • Gweithgareddau hunangyfeiriedig • Myfyrio ar brofiad personol
Cynnwys	<p>5.1 Gwerthuso'r effaith</p> <p>5.2 Ymarfer sy'n cael ei lywio gan ymchwil ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth</p> <p>5.3 Meithrin a chynnal rhwydweithiau entrepreneuriaidd</p>
Asesu	<p>Ymarferion hunanasesu</p> <p>Myfyrdod grŵp</p> <p>Myfyrdod personol</p>



Amser
dangosol

5 awr



Cyflwyniad i'r Modiwl

Gwylwch cyflwyniad fideo i Fodiwl 5 - Dysgu proffesiynol a myfyrio

Link: <https://www.youtube.com/watch?v=rL-PUPBwKoY>



5.1 Gwerthuso effaith

Mae gwerthuso yn broses o bennu gwerth rhywbeth mewn ffordd systematig.¹ Mae'n bwysig am ei fod yn llywio penderfyniadau, yn ysgogi dadl, ac yn gallu cyfrannu at welliannau o ran cynllunio rhaglenni a phrofiadau addysgu a dysgu. Cydnabyddir yn eang fod hunanwerthuso cywir a gonest ar sail tystiolaeth yn hanfodol i welliant unigolion a'r ysgol gyfan. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae llawer wedi'i ddweud am addysgwyr yn gwerthuso effaith eu haddysgu ar ddysgu myfyrwyr. Er enghraifft, mae John Hattie yn gwneud y pwynt bod angen i werthuso prosesau, cynnyrch, pobl a rhaglenni fod yn rhan annatod o bob ysgol.² Felly, sut yr ydym yn mesur effaith ein haddysgu ar gymwyseddau entrepreneuriaidd?

Y man cychwyn ddylai fod sut yr ydych yn ystyried addysg entrepreneuriaidd, a drafodwyd ym Modiwl 1. Mae'r graddau yr ydych yn credu yng ngwerth addysg entrepreneuriaidd a'ch gallu i fod yn llwyddiannus (hunaneffeithiolrwydd) yn chwarae rhan bwysig ym mhrofiadau dysgu'r myfyrwyr.³ Dyna pam y mae'n ddefnyddiol cynnal ymarferiad hunanasesu i ddangos eich agweddau, credoau a gwerthoedd sylfaenol (gweler tasgau 5.1).

Felly, yr hyn sy'n bwysig mewn gwirionedd yw datblygu'r hyn y mae Hattie yn ei alw'n effeithiolrwydd athrawon ar y cyd, sef y gred gyffredin sydd gan athrawon yn eu gallu i gael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr. Gellir dadlau bod hyn yn arbennig

1 OECD (2008) OECD Framework for the Evaluation of SME and Entrepreneurship Policies and Programmes, OECD

2 Hattie, J. (2012) Visible Learning for Teachers, Routledge, p.141. Mae yna lawer o wefannau sy'n rhoi cyngor i athrawon ar werthuso effaith eu haddysgu. Er enghraifft, gweler <https://www.education.vic.gov.au/school/teachers/teachingresources/practice/improve/Pages/evaluateimpactteaching.aspx>

3 Er enghraifft, Zaidatol Akmaliah Lope Pihie and Afsaneh Bagheri, 'Teachers' and Students' Entrepreneurial Self-efficacy: Implication for Effective Teaching Practices', Procedia - Social and Behavioral Sciences 29, 1071-1080; see also Ying Guo et al., (2012) 'The effects of teacher qualification, teacher self-efficacy, and classroom practices on fifth graders' literacy outcomes' by The Elementary School Journal, 113(1);



o bwysig mewn meysydd megis addysg entrepreneuriaeth, lle mae diffyg gwybodaeth, hyder a phrofiad gan lawer o athrawon.

Fodd bynnag, nid yw cred yn unig yn ddigon. Ni all athrawon addysgu ynghylch sut i fod yn entrepreneuriaidd heb fod yn entrepreneuriaidd eu hunain. Ac, o ran Hattie, yr hyn sydd bwysicaf yw bod athrawon yn dod yn *werthuswyr* eu haddysgu, ac mae hyn yn golygu mabwysiadu cyfres o 'agweddau meddwl'.⁴ Gyda'i gilydd, mae'r wyth agwedd meddwl hyn yn cynrychioli dull gweithredu eang o ran addysgu a dysgu ac maent yn bwynt cyfeirio defnyddiol i ddechrau meddwl am eich addysg entrepreneuriaeth a sut y gallech werthuso eich addysgu (Tabl 5.1).⁵



4 Hattie, J. (2012) *Visible Learning for Teachers*, Routledge, tt.182-189.

5 Nid yw pawb yn cytuno â Hattie. Mae ei chweched agwedd meddwl yn awgrymu y dylai athrawon beidio ag annog myfyrwyr i wneud eu gorau, sy'n groes i'r syniad o 'berfformiadau gorau personol'. Mae un awdur yn dadlau y dylai athrawon groesawu'r her i gyflawni perfformiad gorau personol bob dydd, ym mhob dosbarth, i bob myfyriwr. Knight, J. (2012) 'Personal Bests' yn *High Impact Instruction*, Corwin, t.2. Fodd bynnag, mae dadl gyffredinol Hattie, sy'n seiliedig ar dystiolaeth sylweddol, yn un gref.



Agwedd meddwl	Awgrymiadau i'w hystyried ac enghreifftiau	Cyfeiriadau EntreCompEdu	Cysylltiad ag EntreComp
Ystyried mai prif dasg addysgu yw gwerthuso effaith eu haddysgu ar ddysgu a chyflawniad y myfyrwyr	Sut ydwi i'n wir yn gwybod bod myfyrwyr yn datblygu cymwyseddau entrepreneuriaidd, e.e. eu bod yn gynhyrchiol wrth weithio mewn grwpiau?	3.5. Hybu gwaith cynhyrchiol gydag eraill	3.4. Gweithio gydag eraill
Credu bod llwyddiant myfyrwyr yn adlewyrchu eu haddysgu	Sut y gallaf annog myfyrwyr i fod yn fwy annibynnol, cyfrifol a hunanymwybodol? I ba raddau yr wyf yn hybu strategaethau hunangymorth ac yn galluogi myfyrwyr i addysgu eraill?	3.4. Meithrin hunanymwybyddiaeth, hunan-barch a hunanhyder i gefnogi'r dysgu	2.1. Hunanymwybyddiaeth a hunaneffeithiolrwydd
Siarad mwy am ddysgu nag addysgu	Beth yr wyf yn ei wybod am sut y mae myfyrwyr yn dysgu? A wyf yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddysgu sut i ymddwyn mewn modd entrepreneuriaidd ar draws y cwricwlwm?	1.3 Deall sut y mae myfyrwyr yn meithrin cymwyseddau entrepreneuriaidd	1.3. Gweledigaeth
Ystyried asesu yn adborth ar eu haddysgu	Pwy yr oeddwn wedi'i addysgu'n dda a phwy nad oeddwn wedi'i addysgu mor dda? A wyf yn sicrhau bod amcanion dysgu entrepreneuriaidd a meini prawf llwyddiant yn eglur, fel bod myfyrwyr yn deall 'pam', 'beth' a 'sut' o ran gwersi?	4.2. Rhannu adborth ar ddysgu entrepreneuriaidd	3.5. Dysgu trwy brofiad
Cymryd rhan mewn deialog nid monolog	Sut y gallaf greu mwy o amser i wrando ar fyfyrwyr a'u syniadau yn hytrach na dominyddu trafodaethau yn yr ystafell ddosbarth?	2.2 Creu cysylltiadau	1.4. Rhoi gwerth ar syniadau
Mwynhau'r her a pheidio byth â mynd yn ôl i 'wneud eich gorau'	A yw'r tasgau yr wyf yn eu gosod i fyfyrwyr yn eu cynnwys yng nghyd-destunau'r byd go iawn a chyfleoedd i fod yn greadigol?	3.3 Addysgu trwy gyd-destunau'r byd go iawn	1.2. Creadigrwydd



Credu mewn meithrin perthnasoedd cadarnhaol	Sut y gallaf greu awyrgylch yn yr ystafell ddosbarth lle mae myfyrwyr yn teimlo ei bod yn iawn i wneud camgymeriadau a byw gydag ansicrwydd?	2.3 Creu amgylchedd dysgu entrepreneuriaidd grymusol	3.3. Ymdopi ag ansicrwydd...
Rhoi gwybod i bawb am iaith dysgu	Sut y gallaf estyn allan i rieni ac eraill i sefydlu iaith a rennir am ddysgu entrepreneuriaidd?	4.3 Dathlu cynnydd a chyflawniad	2.5. Cynnull pobl eraill

Tabl 5.1 Cymhwyso agweddau meddwl Hattie i addysg entrepreneuriaeth.



Yn fyr, mae Hattie ymhlith y rheiny sy'n galw ar athrawon i edrych o'r newydd ar eu harferion trwy ganolbwyntio ar y gwahaniaeth y maent yn ei wneud i ddysgu myfyrwyr a sut y maent yn gwybod hyn.

Mae hyn yn gofyn gwybodaeth am sut i gynnal gwerthusiad. Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysg, sydd wedi'i leoli yn y Deyrnas Unedig, yn darparu canllaw rhyngweithiol ar-lein [Ar Eich Liwt Eich Hun](#) sy'n eich arwain trwy bob cam o gynnal gwerthusiad.

Mae bod yn gyfarwydd â gwerthuso eich ymarfer eich hun yn rheolaidd hefyd yn golygu, fel y dywed Hattie, ffordd newydd o feddwl. Mewn geiriau eraill, mae'n golygu ystyried eich hun yn ddysgwr gydol oes a modelu'r tueddfryd a'r sgiliau yr ydych am weld myfyrwyr yn eu datblygu, e.e. bod yn greadigol, cymryd risgiau, creu cysylltiadau a dysgu o brofiad. Er enghraifft, mae Colin Jones yn sôn am ei daith ei hun wrth ddysgu entrepreneuriaeth dros nifer o flynyddoedd sydd wedi cynnwys cwestiynu ei syniadau a'i ddulliau yn barhaus.⁶ Mae hyn wedi ei arwain at y casgliad mai ei brif rôl yw datblygu myfyrwyr yn anturiaethwyr rhesymol sy'n cwestiynu eu credoau yn gyson, yn deall safbwyntiau eraill am y byd, yn ymdopi ag ansicrwydd ac yn ceisio cyfleoedd yn seiliedig ar werthoedd i'w harchwilio. Mae Jones, sydd wedi gwerthuso a myfyrio ynghylch ei ymarfer yn barhaus, yn tynnu sylw at bwysigrwydd caniatáu i fyfyrwyr ddysgu ar unrhyw adeg, yn unrhyw le ac ar unrhyw gyflymdra. Wrth gwrs, mae yna gyfyngiadau (e.e. amser) y mae athrawon yn eu hwynebu. Ond mae ysbryd bod yn werthusol a chwilio'n barhaus am ffyrdd o ddysgu o brofiad yn ganolog nid yn unig i fod yn llwyddiannus mewn addysg entrepreneuriaeth ond fel addysgwr yn gyffredinol.

Ymarfer Myfyriol

Gall gwerthuso gael ei lywio gan fyfyrio. Mae cynnydd pobl yn seiliedig ar ragdybiaethau heriol. Er enghraifft, heb fod yn hir iawn yn ôl mewn hanes, roedd y

⁶ Jones, C. (2019) How to Teach Entrepreneurship, Edward Elgar, p.40.



rhan fwyaf o bobl yn tybio na allai pobl fyth hedfan. Pan fyddwn yn annog myfyrwyr i herio rhagdybiaethau penodol, byddwn yn datblygu ymagwedd 'aflonyddol' sydd, mewn ystyr entrepreneuriaidd, yn ymddygiad cadarnhaol iawn o ran gwthio ffiniau arloesedd. Myfyrio beirniadol yw'r broses o herio credoau neu ragdybiaethau sydd wedi'u cymryd yn ganiataol. Dyma'r hyn y mae Brookfield (1997) yn ei alw'n hela rhagdybiaethau neu'n gwestiynu'r hyn yr ydym yn ei gredu am addysgu a dysgu. Gwerth myfyrio'n feirniadol yw bod y penderfyniadau yr ydym yn eu gwneud yn gwella oherwydd bod gennym fwy o wybodaeth.

Mynd yn dyfnach 5.1:

Ymarfer myfyriol ac addysg entrepreneuriaidd

DARLLEN: Darllenwch y ddogfen Mynd yn Ddyfnach am ymarfer myfyriol.
more about how to develop your own reflective practice
I gyrchu Modiwl 5 Ewch yn Ddyfnach 5.1, cliciwch yma.



Tasg Fforwm LoopMe 5.1: Ffordd o feddwl

DARLLEN: Darllenwch y ddogfen Mynd yn Ddyfnach am ymarfer myfyriol.

Link needed

MYFYRIO: Neilltuwch ychydig funudau i nodi digwyddiad neu weithred ddiweddar yn eich ymarfer. Sut y gellid ystyried y rhain mewn ffordd wahanol trwy bedair lens Brookfield?

ADRODDIAD GRŴP FFORŴM: Rhannwch eich casgliadau trwy'r ddolen

ADRODDIAD yn y Grŵp Fforwm

Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 5.1: Cofnodi eich cynnydd

Our entrepreneurial achievements...

Compared with the start of the term/year, I now know that...

Compared with the start of the term/year, I am now able to...

Compared with the start of the term/year, I can now teach a colleague to...

The most important thing I have learned about my teaching is...

The most important thing I have learned about my students is...

When I first heard the term 'entrepreneurial' I thought... now I think...

The one achievement I am most proud of is...

I plan to share such practice by...

Ystyriwch lunio cofnod o'ch cyflawniadau a'ch cynnydd entrepreneuriaidd eich hun, yn ogystal â'r uchafbwyntiau gan eich myfyrwyr. Defnyddiwch awgrymiadau tebyg i'r canlynol: <https://s.surveyanypplace.com/eedulog>



Ym mha ffyrdd ydych chi'n credu y gallai'r math hwn o gofnod gefnogi'r prosesau dysgu?

Rhannwch eich myfyrdodau ar y canlyniad â'ch hyfforddwr yn Nhasg 5.1.2
Modiwl 5 ENTRECOMPEDU





5.2 Ymarfer sydd wedi'i llywio gan ymchwil ac ymarfer seiliedig ar dystiolaeth

Pan fydd addysgwyr wedi'u llywio gan ymchwil ac yn seilio eu penderfyniadau yn gadarn ar dystiolaeth, maent mewn sefyllfa dda i wneud dewisiadau doeth a chyfiawnhau eu gweithredoedd. Mae addysgu seiliedig ar dystiolaeth yn golygu defnyddio data i gadarnhau lle mae myfyrwyr o ran eu dysgu, gwneud y newidiadau angenrheidiol o ran addysgeg a monitro effaith unrhyw ymyraethau o'r fath. Gall y dystiolaeth ei hun ddod o ffynonellau amrywiol, e.e. barn myfyrwyr, cydweithwyr, rhieni, canlyniadau profion, nodiadau wrth arsylwi ar wersi a'ch myfyrdodau eich hun. Dylai data o'r fath a gesglir yn lleol hefyd gael eu llywio gan dystiolaeth o ymchwil allanol, e.e. yr hyn yr ydym yn ei wybod am arferion addysgu effeithiol o gronfeydd data megis y [Sefydliad Gwaddol Addysg](#) a [Visible Learning](#).

Mae datblygu eich addysgu fel ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth yn gofyn am fwy o ymwybyddiaeth ynghylch lle y gellir cael ymchwil ar addysg entrepreneuriaidd, myfyrio ar ei dibynadwyedd a sut y gallai fod yn berthnasol i'ch lleoliad. I'r rheiny sydd â mynediad at [ResearchGate](#), sef gwefan rhwydweithio cymdeithasol arweiniol i ymchwilwyr, mae'n bosibl cael gwybodaeth eang. Trwy chwilio gan ddefnyddio termau megis 'dysgu entrepreneuriaidd', 'addysg entrepreneuriaeth' neu 'addysgu ynghylch entrepreneuriaeth', dangosir nifer o gyhoeddiadau sydd ar gael i'w lawrlwytho am ddim neu'n cynnig yr opsiwn o wneud cais am fynediad, e.e.

- McCallum, Elin a Weicht, Rebecca a McMullan, Lisa a Price, Alison. (2018). *EntreComp into Action: get inspired, make it happen*
- Williams-Middleton, Karen a Donnellon, Anne. (2014). 'Personalizing Entrepreneurial Learning: A Pedagogy for Facilitating the Know Why'. *Entrepreneurship Research Journal*. 4. 167-204.



- Floris, Michela a Pillitu, Daniela. (2019). 'Improving entrepreneurship education in primary schools: a pioneer project'. *International Journal of Educational Management*. 33. 1148-1169.

Yn yr un modd, mae Google Scholar yn caniatáu i ddefnyddwyr chwilio am gopiâu digidol a ffisegol o ffynonellau, gan gynnwys papurau sydd wedi'u hadolygu gan gyfoedion. Gall y rhain gael eu didoli yn ôl dyddiad er mwyn hidlo'r cyhoeddiadau diweddaraf. Hefyd, mae yna gyfnodolion arbenigol, megis *Entrepreneurship Theory and Practice* (Sage, ers 1976), ac mae deunydd defnyddiol hefyd yn ymddangos mewn cyfnodolion nad ydynt wedi'u cyfyngu'n benodol i addysg, e.e. mewn meysydd megis seicoleg, creadigrwydd a busnes.

O ran athrawon prysur, mae dod o hyd i ymchwil ar addysg entrepreneuriaeth yn un mater, ond mater arall yw gwerthuso ei hansawdd. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried bod academyddion eu hunain yn aml yn dadlau dros ddibynadwyedd neu ddilysrwydd canlyniadau penodol ymchwil.⁷ Serch hynny, mae yna bwyntiau cyffredinol i'w hystyried: How relevant is this research to my professional interest?

- Pa mor berthnasol yw'r ymchwil hon i'm diddordeb proffesiynol?
- Pryd y gwnaed yr ymchwil? Os yw'n fwy na phum mlynedd yn ôl, a yw'n dal i fod yn berthnasol?
- Pwy oedd yr awdur(on)? Beth yr wyf yn ei wybod am eu cefndiroedd?
- Ar ôl darllen y crynodeb (os yw'n bapur academaidd) a wyf yn cael ymdeimlad clir o'r hyn y mae'r erthygl yn sôn amdano? A ellir darllen yr ymchwil yn hwylus yn gyffredinol?

⁷ Mae dibynadwyedd yn golygu a ellir atgynhyrchu'r ymchwil gan ddefnyddio'r un dulliau, ac mae dilysrwydd yn golygu a yw'r ymchwil yn mesur yr hyn yr oedd am ei fesur. Am drafodaeth ynghylch ansawdd ymchwil addysg, gweler Tooley, J. a Darby, D. (1998). *Educational research – a critique*. Llundain, Swyddfa Safonau mewn Addysg



- Pa mor bendant yw'r casgliadau?

Man cychwyn defnyddiol yw ystyried a oes unrhyw adolygiadau o lenyddiaeth wedi'u cynnal ar addysg entrepreneuriaeth. Mewn un enghraifft, roedd yr ymchwilwyr wedi edrych ar 129 o erthyglau ar addysg entrepreneuriaeth a chael hyd i amrywiaeth eang o ddulliau addysgu a chynnwys cwricwla, gan gynnwys astudiaethau achos, cynlluniau busnes, rhwydweithio, chwarae rôl, cynhyrchu syniadau, mentora ac interniaethau.⁸ Roedd yna ffocws cryf ar 'ddysgu trwy wneud' a dulliau addysgu trwy brofiad. Fodd bynnag, mae'r awduron hefyd yn adrodd ynghylch diffyg cytundeb am ystyr addysg entrepreneuriaeth ac mae'n agored i ddehongliadau'r athrawon eu hunain i raddau helaeth. Gall yr adolygiadau hyn fod yn ddefnyddiol o ran darparu safbwynt ehangach ar gyfer archwilio eich ymarfer eich hun.

Mae sicrhau eich bod yn cael eich llywio gan ymchwil hefyd yn gofyn am barodrwydd i gymryd rhan mewn trafodaethau ag eraill am ymchwil o'r fath, naill ai wyneb yn wyneb mewn ystafelloedd staff neu drwy dechnolegau megis y cyfryngau cymdeithasol a LoopMe. Ac yn olaf, mae'n gofyn am ymrwymiad i gymhwyso'r ymchwil yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n cymryd amser i amlygu'r tair nodwedd hyn o gael eich llywio gan dystiolaeth (ymwybyddiaeth, ymgysylltu a defnyddio.⁹ Ond y dangosyddion yw bod yr athrawon mwyaf effeithiol, ym mhob pwnc a chyd-destun, yn gwerthuso eu harferion gan ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys ymchwil. Maent yn gwneud hynny'n feiriadol ac nid ydynt dim ond yn cymhwyso'r hyn yr adroddir ei fod yn gweithio'n dda mewn mannau eraill. Wrth gadw meddwl agored, maent yn herio dystiolaeth ac yn myfyrio ynghylch yr hyn y mae'n ei olygu yn eu cyd-destun penodol.

8 Sirelkhatim, F. & Gangi, Y. (2015) 'Entrepreneurship education: A systematic literature review of curricula contents and teaching methods', *Cogent Business & Management* (2015), 2:1-11.

9 Gallwch asesu lle rydych ar eich taith tuag at gael eich llywio gan dystiolaeth trwy ddefnyddio cyfarwyddiadau hunanasesu, megis <https://chartered.college/wp-content/uploads/2018/01/Evidence-informed-teaching-self-assessment-tool-for-teachers.pdf>




Ymchwil Weithredu

Mae yna nifer o ddulliau gweithredu o ran ymchwil addysgol y gellir eu defnyddio i gefnogi eich datblygiad proffesiynol entrepreneuriaidd. Yma byddwn yn trafod ymchwil weithredu sydd â hanes hir.¹⁰ Mae'n galluogi athrawon i ymchwilio mewn modd systematig i'w hymarfer a gwella eu sgiliau. Mae'r broses yn dechrau trwy gynllunio'r hyn yr ydych am ei archwilio. Gallai hyn ddeillio o arsylwi ar eich myfyrwyr, eu sylwadau, adborth gan gydweithiwr neu rywbeth yr oeddech wedi darllen amdano ym maes addysg. Yn y cam cynllunio, mae hefyd angen i chi feddwl am bwy fydd yn cynnal yr ymchwil a sut y byddwch yn cael gwybod, h.y. y dulliau y byddwch yn eu defnyddio i gasglu data (e.e. trwy arsylwadau, arolygon, cyfweiliadau). Os ydych yn cynnal yr ymchwil eich hun, bydd hyn yn fath o ymchwil gan ymarferydd. Neu gallech benderfynu gofyn am gyngor neu gymorth allanol. Yna, rhoddir y cam gweithredu ar waith, a byddwch yn gweld beth sy'n digwydd. Y trydydd cam yw myfyrio ynghylch y canfyddiadau. Ac yn olaf, byddwch yn newid eich cynllun gwreiddiol ac yn ailadrodd y cylch (Ffigur 5.1).

¹⁰ Cyflwynwyd yn wreiddiol gan Kurt Lewin yn 1946; gweler Clem Adelman (1993) 'Kurt Lewin and the Origins of Action Research', *Educational Action Research*, 1.1, 7-24.





Ffigur 5.1 Cylch ymchwil weithredu syml

Mae ymchwil weithredu wedi cael ei beirniadu am nad yw'n ddiuedd (mae gan unigolion fuddiant yn y deilliannau) a chaiff ei hystyried yn rhy oddrychol neu'n anwyddonol. Fodd bynnag, gall hefyd fod yn rhyddhaol, grymusol a thrawsnewidiol, er bod hynny ar raddfa fach. Un enghraifft o'r modd y mae ymchwil weithredu yn gweithio yw astudiaeth achos o athrawon yn Sweden a fu'n gweithio ochr yn ochr â darlithwyr prifysgol i archwilio a allai dysgu entrepreneuriaidd gefnogi'r broses o ddatrys problemau mewn Mathemateg mewn ysgolion cynradd, ac i'r gwrthwyneb. Un o'r tasgau a bennwyd oedd bod plant Dosbarth 5 yn gweithio mewn parau ac yn llunio tasgau i gael ateb penodol, h.y. '45' neu '96'. Roedd hyn yn groes i'r dull gweithredu arferol lle mae athrawon yn disgwyl i fyfyrwyr roi atebion i dasgau penodol. Dyma'r tro cyntaf y bu'n rhaid i'r myfyrwyr hyn lunio eu tasgau eu hunain yn y ffordd hon. Trwy dasgau o'r fath, canfu'r ymchwilwyr fod angen i blant arddangos cymwyseddau entrepreneuriaidd, megis dewrder a goddef amwysedd. Hefyd, roeddent wedi amlygu ymdeimlad o fenter, er enghraifft, trwy ddefnyddio cyfrifianellau i wirio bod eu tasgau yn gywir cyn eu cyflwyno yn y sesiwn dosbarth cyfan. Fodd bynnag, roedd yr ymchwilwyr hefyd yn cydnabod bod yr ymchwil yn heriol, e.e. sicrhau nad oedd yr



academyddion yn ymyrryd wrth i'r athrawon roi'r prosiect ar waith a bod yr athrawon yn camu 'nôl ac yn gadael i'r myfyrwyr geisio ymdopi.

Serch hynny, mae profi 'pleser' methiant yn ganolog i fod yn entrepreneuriaidd. Nid yw hyn yn hawdd gan ein bod yn byw mewn cymdeithasau sy'n canolbwyntio ar lwyddiant. Yr her wirioneddol i addysgwyr yw rheoli nid yn unig awydd myfyrwyr i lwyddo ond eu hawydd i beidio â methu. Mae ofn methu yn gallu atal creadigrwydd. Mae llwyddiant entrepreneuriaidd yn ddieithriad yn golygu cyfres o rwystrau. Roedd Henry Ford yn deall hyn yn dda, a nododd fod methiant yn gyfle i ddechrau eto, ond mewn modd mwy deallus y tro hwn.¹¹ Dyna pam y mae'n bwysig bod myfyrwyr yn sylweddoli bod methiant yn rhywbeth i ddysgu ohono ym mhob safle cymdeithasol (e.e. awduron, artistiaid, peirianwyr, cerddorion, dawnswyr).

Ewch yn Ddyfnach 5.2: Arfer bwriadol =

Darganfyddwch fwy am sut i ddatblygu trwy ymarfer bwriadol
I gyrchu al Modiwl 5 Ewch yn Ddyfnach 5.2, cliciwch yma.

¹¹ Dyfynnwyd gan Bayley, S. a Mavity, R. (2019) How to Steal Fire, Bantam Press, t.169.



Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 5.2.2: Austin's Butterfly

Cwblhewch yr arolwg 10 munud a fydd yn asesu eich potensial entrepreneuraidd, sydd ar gael ar y wefan:



Link: <https://www.youtube.com/watch?reload=9&v=hqh1MRWZjms>

Darllenwch yr adborth a myfyriwch ar yr hyn y mae'n ei ddweud wrthy ch am eich natur bresennol.

Rhannwch eich myfyrdodau ar y canlyniad â'ch hyfforddwr yn Nhasg 5.2.1
Modiwl 5 ENTRECOMPEDU

Pwnc Fforwm LoopMe 5.2: Methiannau campus

Mae'r syniad o 'fethiant campus' yn cael ei hyrwyddo mewn entrepreneuriaeth gan Paul Iske, o Sefydliad y Methiannau Campus, a'i debyg. Gan feddwl am eich cyd-destun addysgu eich hun, sut y gallech ymchwilio i'r modd y mae eich myfyrwyr yn ystyried camgymeriadau, neu gywain gwybodaeth am hynny?

Yn eich rôl fel gwerthuswr, pam y gallai tystiolaeth o'r fath fod yn ddefnyddiol?

Rhannwch eich myfyrdodau yn y FFORWM ENTRECOMPEDU



LoopMe Tasg Unigol 5.2: Fframiau Meddwl

MYFYRIO: Ewch ati i fyfyrrio ar fframiau meddwl Hattie yn Nhabl 5.1 yng ngwerslyfr y modiwl, ynghyd â'r modd y cawsant eu cymhwyso i EntreCompEdu a chymwyseddau EntreComp. Sut y gall y fframiau meddwl hyn, sydd wedi'u llywio gan ymchwil addysg, eich helpu i feddwl am addysg a hyfforddiant entrepreneuriaidd?

Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yma yn LoopMe.



5.3 Datblygu a chynnal rhwydweithiau entrepreneuriaidd

Fel addysgwyr, mae'n debygol eich bod yn aelod o un neu ragor o gyrrff proffesiynol sy'n cynnig arweiniad i gefnogi eich gwaith. Gallai fod yn gymdeithas pwnc, yn undeb llafur neu'n sefydliad sy'n gysylltiedig â'r Llywodraeth. Mae'r rhain yn fannau cychwyn defnyddiol i archwilio a oes cysylltiadau neu adnoddau i gefnogi addysg entrepreneuriaidd. Wrth gwrs, mae yna nifer o sefydliadau penodol ond mae llawer o'r rhain yn tueddu i ganolbwyntio ar gefnogi mentrau newydd neu fyfyrwyr ôl-uwchradd.

Mae'r enghreifftiau o ddigwyddiadau, rhwydweithiau a sefydliadau entrepreneuriaidd a nodir yn Nhabl 5.2 yn dod o Ewrop a phob rhan o'r byd. Er efallai nad yw rhai o'r rhwydweithiau hyn ar waith yn eich ardal chi, gall fod yn werth chweil edrych ar eu gwefannau oherwydd y syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a'r adnoddau y maent yn eu darparu.

Y Sefydliad	Disgrifiad
Rhwydwaith EntreComp360	<p>Mae'r rhwydwaith hwn yn dwyn ynghyd ymarferwyr a sefydliadau sydd â diddordeb mewn dysgu entrepreneurial ar draws pob sector - mae'r rhwydwaith hwn ar fin cael ei drosglwyddo i ganolbwynt cymunedol pwrpasol (www.entrecomp.com) ym mis Mawrth 2021. Ymunwch â hwn i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd a phrosiect arall. datblygiadau mewn ysgolion, addysg alwedigaethol a thu hwnt.</p> <p>Facebook: https://www.facebook.com/groups/entrecomp</p> <p>Gwefan: www.entrecomp.com</p>



Y Sefydliad	Disgrifiad
EntreCompEdu Community	Dyma'r grŵp facebook i'r rhai sydd â diddordeb yn y rhaglen EntreCompEdu neu sydd eisoes yn cymryd rhan ynddo - ymunwch nawr!
<u>EntreComp Europe</u>	Rhwydweithiau cenedlaethol yw'r rhain sy'n dwyn ynghyd bobl sydd â diddordeb mewn dysgu entrepreneuriaid neu sy'n ymwneud ag ef fel cymuned genedlaethol - ar hyn o bryd mae cymunedau yn Sbaen, yr Eidal, Twrci, Gwlad Belg a Moldofa.
<u>ETC Toolkit</u>	Pecyn cymorth addysg entrepreneuriaid ar-lein yw hwn ar gyfer prifysgolion ac addysg alwedigaethol. Fe'i trefnir yn ôl thema academaidd. Yn cael ei redeg gan Enterprise Educators UK
<u>UNEVOC</u>	Mae UNEVOC yn gwneud llawer o waith ar addysg entrepreneuriaid mewn addysg a hyfforddiant technegol a galwedigaethol - gan gynnwys canllaw ymarferol diweddar.
<u>European SchoolNet Teacher Academy</u>	European Schoolnet yw'r rhwydwaith o 34 o Weinyddiaethau Addysg Ewropeaidd, ac mae'n cynnig hyfforddiant trwy ei Academi Athrawon
<u>E-twinning Community - entrepreneurship education</u>	Mae hwn yn grŵp dan sylw yn y rhwydwaith E-Gefeillio - gan gynnwys fforwm ar-lein a llawer o weminarau ar-lein. Dan arweiniad Kornelia Lohynova
<u>PIETE</u>	Dyma brosiect a ariennir gan Erasmus+ sy'n cynnwys sawl prifysgol ledled Ewrop ac sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth ynghylch pwysigrwydd addysg entrepreneuriaeth mewn addysg gychwynol i athrawon.



Y Sefydliad	Disgrifiad
<u>JA Europe</u>	Mae'r rhwydwaith hwn yn canolbwyntio ar gynnwys myfyrwyr o'r ysgol gynradd hyd at addysg uwch. Mae Llwybr Addysg JA yn nodi datblygiad o ran entrepreneuriaeth, parodrwydd i weithio a llythrennedd ariannol.
<u>Network for Teaching Entrepreneurship</u>	Rhwydwaith sy'n darparu cyfleoedd addysgol mewn busnes i fyfyrwyr ysgol uwchradd sydd wedi'u tan-gyflenwi yn yr Unol Daleithiau.
<u>Global Entrepreneurship Week</u>	Wedi'i bilio fel 'casgliad o ddegau o filoedd o ddiwyddiadau, gweithgareddau a chystadlaethau bob mis Tachwedd sy'n ysbrydoli miliynau i archwilio eu potensial fel entrepreneur wrth feithrin cysylltiadau a chynyddu cydweithredu o fewn eu hecosystemau.'
<u>International Women's Entrepreneurship Day.</u>	Sefydliad sy'n cefnogi menywod mewn busnes ledled y byd. Y diwrnod swyddogol yw 19 Tachwedd.
<u>ERENET</u>	Mae'r sefydliad hwn yn cyhoeddi ymchwil mewn addysg entrepreneuriaeth ac yn trefnu cynadleddau a digwyddiadau eraill.
<u>Teaching entrepreneurship</u>	Blog gyda llawer o adnoddau addysgu (y prif ffocws yw galwedigaethol, prifysgol a chychwyn) - dan arweiniad tri addysgwr / entrepreneur, Doan Winkel, Justin Wilcox a Federico Mammano.
<u>The British Council</u>	Mae sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cyfleoedd addysgol yn darparu ychydig o arweiniad ar werth menter ac addysg entrepreneuriaeth.



Y Sefydliad	Disgrifiad
<u>USASBE</u> -	Dyma'r sefydliad Americanaidd mwyaf sydd wedi'i neilltuo i hyrwyddo entrepreneuriaeth. Mae ei wefan yn cynnwys adran addysg sydd ag ymarferiadau i fyfyrwyr, megis sut i greu marchnad, chwilio am gleientiaid a chreu cwmnïau newydd yn yr ystafell ddosbarth.

Tabl 5.2. Enghreifftiau o ddigwyddiadau a rhwydweithiau entrepreneuriaid ar gyfer y calendr

Ar lefel leol, gall fod yn werthfawr creu cysylltiadau ag ysgolion eraill a all fod â diddordeb penodol mewn hyrwyddo addysg entrepreneuriaeth. Hefyd, gallech gysylltu ag adrannau addysg mewn prifysgolion lleol, yn ogystal â chymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol perthnasol a gynhelir gan glybiau dinesig, llyfrgelloedd neu fusnesau, er na fydd gan bawb y byddwch yn cyfarfod â nhw gysylltiad uniongyrchol ag entrepreneuriaeth neu addysg.

Un ffordd bwysig o gynnal rhwydweithiau yw trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn bellach yn brif gyfrwng ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol. Mae'r rheiny sy'n cyfrannu at wefannau megis Twitter a LinkedIn yn nodi syniadau a storïau sy'n gallu cyflwyno cyfleoedd am ddysgu proffesiynol pellach. Gallwch ddilyn cyd-weithwyr neu arbenigwyr mewn addysg entrepreneuriaeth ar y cyfryngau cymdeithasol.

Os ydych yn ei chael yn heriol datblygu rhwydwaith proffesiynol ynghylch addysg entrepreneuriaid, am ba reswm bynnag, mae'n werth pori trwy Grwpiau cyfarfod, cyfrannu at drafodaethau ar-lein neu ysgrifennu eich blog eich hun. Hefyd, mae yna bosibiliadau trwy ddefnyddio Google+ HangOut, SecondLife, neu Skype. Mae yna gymunedau addysg ar-lein, megis Classroom 2.0 a chyfleoedd i greu eich gwefannau neu'ch safleoedd rhithwir eich hun trwy wefannau megis wix.com ac Edmodo.



Un ffordd o ddatblygu rhwydweithiau yw chwilio am bartneriaid (e.e. trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu'r cysylltiadau yn nhabl 5.2) sy'n barod i gydweithio ar ddatblygiad proffesiynol. Er enghraifft, gall cyfleoedd godi trwy Erasmus+ (2014-2020), a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, a rhaglenni tebyg, megis rhaglen ddiweddar Erasmus ar gyfer Entrepreneuriaid Ifanc. Gan gydweithio'n agos ag ysgolion neu golegau eraill, gallwch benderfynu datblygu adnoddau i gefnogi addysg entrepreneuriaeth, gweithredu a gwerthuso ymyrraeth y mae gan bob un ohonoch ddiddordeb ynddi, neu gynnal ymchwil gymharol. Gallwch lunio e-bortffolio o'ch gweithgareddau proffesiynol nid yn unig i ddangos y gwaith yr ydych yn ei wneud ond yn ffynhonnell ar gyfer myfyrio yn ddiweddarach.

Trwy gymryd rhan weithredol mewn rhwydweithiau proffesiynol, y tebygolrwydd yw y bydd eich gwybodaeth a'ch ymarfer entrepreneuriaidd yn datblygu, yn ogystal â'ch gwybodaeth a'ch ymarfer proffesiynol ehangach. Pan fydd rhwydweithiau yn cael eu cynnal yn dda, pan fydd ganddynt ethos sy'n meithrin, a phan maent yn canolbwyntio'n bendant ar wella ymarfer, mae astudiaethau'n dangos bod yna fuddion sylweddol.¹² Mae'r platfform LoopMe yn cynnig ffordd o archwilio eich arferion eich hun yng nghwmni cefnogol cyd-addysgwyr. Mae'r syniad o 'gymunedau ymarfer' yn bwysig yma oherwydd y gall rhwydweithiau o'r fath fodoli ar ffurf rithwir yn ogystal ag ar ffurf ffisegol.¹³ Mae ganddynt botensial i greu'r hyn y mae academyddion yn ei alw'n 'gyfalaf cymdeithasol', sy'n golygu rhannu arbenigedd i greu gwybodaeth newydd. Mae hyn wrth wraidd bod yn entrepreneuriaidd.

¹² Hofman, R, and Dijkstra, B (2010). 'Effective teacher professionalization in networks?' *Teaching and Teacher Education*. 26 (2010): 1031-1040.

¹³Lave, J. and Wenger, E. (1991). *Situated Learning: Legitimate Peripheral Participation*. Cambridge: Cambridge University Press





Pwnc Fforwm LoopMe 5.3: Rhwydweithiau entrepreneuriaidd

ACT: Ewch i ymuno â rhwydwaith neu gymuned broffesiynol ar gyfer addysg entrepreneuriaidd. Dewch o hyd i un sy'n gweithio er eich diddordebau.

Er enghraifft, fe allech chi ddilyn EntreCompEdu ar Twitter (<https://twitter.com/EntrecompEdu>) neu Facebook (<https://www.facebook.com/groups/EntreCompEdu>) a chyfrannu at drafodaethau parhaus.

Neu cysylltwch ag EntreComp360 ar facebook, gyda chymunedau cenedlaethol sy'n datblygu mewn gwahanol wledydd ledled Ewrop (<https://www.facebook.com/groups/entrecomp>)

A wnaeth unrhyw un o'r trafodaethau ddal eich diddordeb? Pam / Pam lai? Sut allwch chi gyfrannu?

Rhannwch a thrafodwch eich cymhellion a'ch disgwyliadau gydag eraill yn Fforwm Grŵp LoopMe.

LoopMe Tasg Olaf 5.3:

Tasg olaf – reflecting on your EntreCompEdu learning

The last one... The big one

Gan ddefnyddio eich holl ddysgu o'r cwrs hwn, ewch ati i lenwi cynfas cynllunio dysgu EntreComp.

Mae hyn yn ymwneud â chreu cynllun gwers sy'n cynrychioli'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu o'r cwrs hwn. Dylai adlewyrchu eich amgylchedd addysgu, yn



ogystal â'r modd y gall yr hyn yr ydych wedi'i ddysgu gael ei gymhwyso i'ch gwaith addysgu. Nid oes yna reolau!

Link: EntreCompLab Learning Design Canvas -

<https://s.surveyanplace.com/canvas>

Bydd hwn yn cael ei rannu â rhwydwaith EntreCompEdu trwy ein cronfa ddata ar-lein, a hynny fel ymarfer EntreCompEdu gan un o'n Hathrawon Arloesi EntreCompEdu!

ADRODDIAD HYFFORDDWR - Rhannwch eich myfyrdodau â'ch hyfforddwr yma yn LoopMe

ADRODDIAD FFORWM GRWP - Pan fyddwch wedi gorffen eich cyntas (ac wedi trafod â'ch hyfforddwr), rhannwch ef gyda chydweithwyr yn Fforwm Grŵp LoopMe.

LLONGYFARCHIADAU!

Rydych bellach wedi cwblhau'r holl dasgau ym modiwl 5.

Dychwelwch yn ôl i LoopMe i gwblhau adran Diwedd glo Cwrs EntreCompEdu

